OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 713 (Cy.74)

# BWYD, CYMRU

### CYFANSODDIAD A LABELU

## Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1396 (Cy.141).
2. Wrth weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 77/99/EEC ar broblemau iechyd sy'n effeithio ar gynhyrchu a marchnata cynhyrchion cig a chynhyrchion penodol eraill sy'n dod o anifeiliaid (rhoddwyd testun a atodir at Gyfarwyddeb y Cyngor 92/5/EEC, OJ Rhif L57, 2.3.92, t.1 yn lle testun Cyfarwyddeb 77/99/EEC), cafodd darpariaeth ei chynnwys yn Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 gyda'r effaith, os gwerthir cynhyrchion cig o ymddangosiad penodol, fod yn rhaid i'r enw a ddefnyddir yn enw ar y bwyd ar labeli'r cynhyrchion gynnwys, at ddibenion Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1449, fel y'i diwygiwyd), ddangosiad ynghylch unrhyw startsh neu brotein a ychwanegwyd ac eithrio at ddiben technolegol yn unig. Yn dilyn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 77/99/EEC, mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad hwnnw (*rheoliadau 3 a 4*).
3. Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael ar gostau busnes wedi ei baratoi a gellir cael copïau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EW.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 713 (W.74)

# FOOD, WALES

### COMPOSITION AND LABELLING

## The Meat Products (Wales) (Amendment) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

1. These Regulations amend the Meat Products (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/1396 (W.141).
2. In implementing Council Directive 77/99/EEC on health problems affecting the production and marketing of meat products and certain other products of animal origin (the text of which was replaced by the text annexed to Council Directive 92/5/EEC, OJ No. L57, 2.3.92, p.1), a provision of which was included in the Meat Products (Wales) Regulations 2004 to the effect that where meat products of a specified appearance are sold, for the purposes of the Food Labelling Regulations 1996 (S.I. 1996/1449, as amended) the name used as the name of the food in the labelling of the products must include an indication of any starch or protein added other than for a technological purpose only. Following the repeal of Council Directive 77/99/EEC, these Regulations remove that requirement (*regulations 3 and 4*).
3. A full regulatory impact assessment on the effect that these Regulations will have on the costs of business has been prepared and copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 713 (Cy.74)

# BWYD, CYMRU

## CYFANSODDIAD A LABELU

## Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mawrth 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *12 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16(1)(e) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno maent wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 ac Atodlen 11, paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) OJ Rhif. L31, 1.2.2002, t.1.

(**3**) OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 713 (W.74)

# FOOD, WALES

## COMPOSITION AND LABELLING

## The Meat Products (Wales) (Amendment) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 March 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *12 Mawrth 2008* |
| *Coming into force* | *6 April 2008* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 16(1)(e) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(**1**).

In accordance with section 48(4A) of that Act, having regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**2**), as last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council amending Regulation (EC) No. 178/2002 laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

(**1**) 1990 c. 16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672. Those functions were transferred to Welsh Ministers by section 162 and Schedule 11, paragraph 30 of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**2**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(**3**) OJ No. L245, 29.9.2003, p.4.

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2008.

**Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004**

**2**. Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004(**1**) fel a ddarperir yn rheoliadau 3 a 4.

**3**. Yn lle paragraff (2)(b) o reoliad 5 (enw'r bwyd ar gyfer cynhyrchion cig penodol) rhodder y paragraff canlynol –

"(b) unrhyw gynhwysyn ychwanegol nad yw is-baragraff (a) yn gymwys iddo, ac eithrio startsh, protein neu gynhwysyn a bennir yn Atodlen 3.".

**4**. Yn Atodlen 3 (cynhwysion ychwanegol nad oes angen eu dynodi yn enw'r bwyd mewn achos cynnyrch cig y mae rheoliad 5 yn gymwys iddo), caiff eitemau 6 a 7 a'r nodyn sy'n ymwneud â'r eitemau hynny eu dileu.

**Title and commencement**

**1**. These Regulations are called the Meat Products (Wales) (Amendment) Regulations 2008 and come into force on 6 April 2008.

**Amendment of the Meat Products (Wales) Regulations 2004**

**2**. The Meat Products (Wales) Regulation 2004(**1**) are amended as provided in regulations 3 and 4.

**3**. For paragraph (2)(b) of regulation 5 (name of the food for certain meat products) there is substituted the following provision –

"(b) any added ingredient to which sub-paragraph (a) does not apply, other than starch, protein or an ingredient specified in Schedule 3.".

**4**. In Schedule 3 (added ingredients which are not required to be indicated in the name of the food in the case of a meat product to which regulation 5 applies), items 6 and 7 and the note relating to those items are deleted.

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Under the authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

11 Mawrth 2008

11 March 2008

(**1**) O.S. 2004/1396 (Cy.141).

(**1**) S.I. 2004/1396 (W.141).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 713 (Cy.74)

## BWYD, CYMRU

### CYFANSODDIAD A LABELU

Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 713 (W.74)

## FOOD, WALES

### COMPOSITION AND LABELLING

The Meat Products (Wales) (Amendment) Regulations 2008

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W282/03/08 ON